# Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru

# RHAN 4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYFLWYNIAD

Mae Llywodraethwyr Cymru yn ymroddedig i gefnogi llywodraethu ysgolion yn effeithiol ac i ddatblygiad personol llywodraethwyr yng Nghymru. Gobeithir felly y bydd yr wybodaeth a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn eich helpu i gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel llywodraethwr.

Bydd gan Lywodraethwyr Cymru ddiddordeb mewn gwybod i ba raddau yr ydych yn ystyried bod pedwerydd cyhoeddiad y llawlyfr wedi bod yn ddefnyddiol neu am unrhyw ffyrdd yr ydych yn credu y gellir gwella'r llawlyfr. Fe fyddem yn ddiolchgar petaech yn cwblhau'r ffurflen werthuso ar ddiwedd rhan 5 a'i dychwelyd at:

Llywodraethwyr Cymru
Llawr Daear, 3 Llys Oaktree
Rhodfa Mulberry
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RS
neu trwy e-bost at: contact@governorswales.org.uk.

Fe welwch gyfeiriadau at y gwasanaethau cefnogi a ddarperir ar gyfer cyrff llywodraethu gan Awdurdodau Lleol (ALl). Mae gweithgareddau'r Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr a benodir gan yr ALl yn arbennig o bwysig er mwyn galluogi cyrff llywodraethu i dderbyn gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chefnogaeth yn ogystal â modd o gael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer anghenion y llywodraethwyr. Ceir mwy o wybodaeth ar dudalen 11.

O bryd i'w gilydd cynhyrchir ychwanegiadau ac adolygiadau i'r llawlyfr hwn yn unol â datblygiadau a newidiadau deddfwriaethol mewn llywodraethu ysgolion. Bydd diweddariadau i'r llawlyfr yn cael eu hargraffu ar wefan Llywodraethwyr Cymru: http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/.

Caiff gwybodaeth hefyd ei e-bostio'n uniongyrchol i ysgolion a Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr.

## Cydnabyddiaethau

Mae Llywodraethwyr Cymru yn ddiolchgar i Gyfarwyddwyr Addysg/Cynrychiolydd Prif Swyddogion Ysgolion Cymru, Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr, a Llywodraeth Cymru am eu cyngor a'u cefnogaeth, sydd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r canllaw hwn.

Mae'r llawlyfr hwn hefyd ar gael yn Saesneg yn:
http://www.governorswales.org.uk/handbook/

5ed Rhifyn 2011

# RHAN 4

## CYNNWYS Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Materion personél | 4 |
| 2. | Recriwtio a dethol | 5 |
| 3. | Gweithdrefnau cwyno, disgyblu/diswyddo a gallu | 7 |
| 4. | Adolygiad blynyddol o dâl penaethiaid | 10 |
| 5. | Sut i ddelio gyda chwyn | 12 |
| 6. | Y corff llywodraethu a chyllideb yr ysgol | 14 |
| 7. | Y cwricwlwm | 19 |
| 8. | Arolwg ysgol | 25 |
| 9. | Ymddygiad disgyblion | 29 |
| 10. | Cynghorau ysgol – cyfranogiad y disgyblion | 32 |

# 1. MATERION PERSONÉL

Mae llywodraethwyr yn gyfrifol am amrywiaeth o faterion personél yn ymwneud â phob lefel o staffio yn yr ysgol. Er mai'r ALl yw'r cyflogwr yn gyfreithiol mewn rhai ysgolion ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o dalu'r staff a thynnu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Trech Incwm ayb, mae corff llywodraethu pob ysgol yn cyflawni llawer o gyfrifoldebau cyflogwr. Fodd bynnag, fe wnaiff yr ALl ddarparu gwybodaeth, canllawiau a chyngor i gyrff llywodraethu ynglŷn â materion personél penodol. Er mor werthfawr yw cyngor yr ALl, dylai llywodraethwyr gofio bod y cyfrifoldeb terfynol am wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar staffio yn nwylo corff llywodraethu'r ysgol.

Mae addysg plant yn dibynnu ar athrawon da, yn gweithio fel tîm. Yn amlwg felly, mae'r penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu ynglŷn â recriwtio a dethol aelodau'r tîm a dyrannu rolau o fewn y tîm yn cael effaith uniongyrchol ar berfformiad yr ysgol. Y staff, y rhai sy'n dysgu a ddim yn dysgu, yw adnodd mwyaf gwerthfawr unrhyw ysgol a bydd pob llywodraethwr yn rhannu pryder bod pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol a bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n cael eu diweddaru a'u datblygu. Bydd llywodraethwyr yn ymwybodol bod staff dysgu, gyda chefnogaeth staff sydd ddim yn dysgu, angen cydweithio fel y gall yr ysgol gyflawni ei dyletswyddau dyddiol o addysgu a dysgu. Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd y pennaeth fel arweinydd y staff, yn yr un modd yr angen am berthynas waith dda rhwng y pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethu a'r llywodraethwyr eraill. Y peth pwysicaf efallai yw bod y corff llywodraethu a'r pennaeth yn rhannu'r un weledigaeth o natur a datblygiad yr ysgol a'r safonau y mae'n ceisio'u cyrraedd.

Bydd penderfyniadau personél nid yn unig yn effeithio ar effeithiolrwydd yr ysgol, ond yn effeithio ar rolau a chyfrifoldebau aelodau unigol y staff, eu cyflogau, hunan-barch a dyfodol yn yr ysgol ac, weithiau, eu rhagolygon gyrfa.

O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn aml yn teimlo bod cyfrifoldebau personél yn herio eu gallu personol a'u gwybodaeth dechnegol. Ar yr un pryd maen nhw'n ymwybodol o ganlyniadau difrifol posib gwneud penderfyniad fel corff llywodraethu sy'n gamgymeriad neu'n annoeth, all gael canlyniadau pellgyrhaeddol i aelodau penodol o staff neu all effeithio ar ysbryd ac effeithiolrwydd y staff cyfan. Fe all llywodraethwyr deimlo'n anghyfforddus pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd fydd yn effeithio ar gyflogaeth un neu fwy o aelodau staff ac, efallai, ar eu rhagolygon yn y dyfodol.

Yn fwy cadarnhaol, bydd y corff llywodraethu eisiau buddsoddi amser ac egni i sicrhau bod yna dystiolaeth o waith tîm ac arweiniad effeithiol. Er bod perfformiad pob aelod o staff yn bwysig, yng nghyd destun ysgol, mae'n anodd priodoli cyflawniadau a chanlyniadau penodol i unrhyw unigolyn. Ar y llaw arall, bydd peidio â gwella gwendidau ym mherfformiad unigolion, neu beidio â manteisio ar gryfderau er budd yr ysgol, yn cael effaith negyddol ar effeithiolrwydd unrhyw dîm.

Mae rheoli pobl, yn arbennig o ran recriwtio, dethol, lleoli, ysgogi, datblygu, disgyblu ac weithiau diswyddo, yn faterion cymhleth sydd angen eu trin yn ofalus iawn.

Ceir gwybodaeth am rai o'r meysydd hyn yn yr adran hon.

# 2. RECRIWTIO A DETHOL

Mae pob llywodraethwr eisiau gwneud ei (g)orau i sicrhau bod plant yr ysgol yn cael y budd gorau o sylw staff sy'n ymroddedig a galluog, boed yn athrawon neu'n staff sydd ddim yn dysgu. Gall datblygiad staff da wella perfformiad unigolion a'r holl staff. Ond fe all recriwtio a dethol aelodau newydd o staff sy'n cwrdd ag anghenion penodol yr ysgol ar adeg arbennig, adfywio'r holl staff gyda phrofiad gwahanol ac, efallai, syniadau a dulliau newydd.

Mae recriwtio felly'n gyfrifoldeb hollbwysig. Mae gan bob llywodraethwr ddiddordeb yn sicrhau bod staff a benodir i'r ysgol yn cwrdd ag anghenion yr ysgol ar y pryd. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymuno â'r ysgol yn gymwys, profiadol ac effeithiol yn y rôl y maent wedi eu penodi i'w chyflawni. Mae'n dilyn felly bod yn rhaid i'r gweithdrefnau a fabwysiadir ar gyfer recriwtio a dethol staff fod yn systematig ac wedi eu cynllunio i ddarparu'r amodau a thystiolaeth angenrheidiol i alluogi'r corff llywodraethu i benodi'r ymgeisydd gorau sydd ar gael iddynt.

Dylai fod yna bolisïau a gweithdrefnau diffiniedig clir ar gyfer recriwtio a dethol staff, wedi ei lunio gyda chytundeb y corff llywodraethu a'r staff. Os nad oes gan eich corff llywodraethu weithdrefnau a pholisïau addas, gellir cael cyngor arbenigol gan Adran Adnoddau Dynol a Phersonél eich ALl. Mae cyfraith cyflogaeth yn gymhleth. Cymerwch gyngor!

Dylid penodi staff, gan gynnwys y pennaeth, yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth ac eraill. Bydd cyngor yr ALl yn helpu llywodraethwyr i sicrhau bod eu corff llywodraethu'n gweithredu o fewn y gyfraith.

**Am fwy o wybodaeth, gweler Canllaw i Lywodraethwyr ar Benodi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid**

http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2008/04/03/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-benodi-penaethiaid/

## Natur y Broses Ddethol

Asesiad gofalus o anghenion staffio'r ysgol ddylai fod yn fan cychwyn all arwain at benodi aelod newydd o staff. Fodd bynnag, fe all y berthynas rhwng y cynllun staffio a'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) neu'r Cynllun Gwelliant Ysgol (CGY), anghenion y gyllideb, neu anghenion yn codi o ddarpariaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol fod yn ffactorau pwysig hefyd.

Gellir dirprwyo recriwtio athrawon (ar wahân i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth) a staff sydd ddim yn dysgu i'r pennaeth, un neu fwy o lywodraethwyr neu un neu fwy o lywodraethwyr a'r pennaeth. Dylai'r corff llywodraethu gytuno ar gylch gorchwyl clir.

Rhaid i gyrff llywodraethu benodi panel dethol o rhwng 3-7 o bobl ar gyfer penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid. Does dim amheuaeth mai penodi yw'r penderfyniad mwyaf y bydd corff llywodraethu yn ei wneud (yn arbennig penodiadau i swydd pennaeth). Mae'n hollbwysig felly bod y corff llywodraethu yn:

(1) Penodi'r person gorau ar gyfer y swydd;

(2) Cydymffurfio gydag anghenion deddfwriaeth;

(3) Sicrhau bod y broses yn systematig, gwrthrychol, tryloyw, teg ac yn gallu gwrthsefyll craffu ac unrhyw her posib.

Ffynhonnell cyfeiriad:

- Mae **Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006** yn darparu gwybodaeth ar benodi staff o fewn ysgol.
- **Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Amrywiol) 2007**
- **Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009**
- **Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009**

# 3. GWEITHDREFNAU CWYNO, DISGYBLU/ DISWYDDO A GALLU

## Y FFRAMWAITH GYFREITHIOL

Mae gan y corff llywodraethu reolaeth dros reoliadau ymddygiad a disgyblu staff, yn cynnwys materion o gwyno a gallu, atal dros dro a diswyddo staff. Rhaid i'r corf llywodraethu sefydlu 3 gweithdrefn wahanol ar gyfer yr uchod.

Fel y nodwyd eisoes, gall materion personél fod yn gymhleth ac mae'n hollbwysig bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Dylid ceisio cyngor gan eich ALl. Ceir rhywfaint o wybodaeth ar weithdrefnau disgyblu staff isod:

## GWEITHDREFNAU DISGYBLU STAFF – Pwyntiau cryno

1. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff llywodraethu sefydlu gweithdrefnau ar gyfer disgyblu ac ymddygiad (gan gynnwys diswyddo)y staff y maen nhw'n gyfrifol amdanynt, fel a nodir yn **Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006** a **Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.**

2. Er efallai y bydd cyrff llywodraethu'n dewis mabwysiadu'r polisïau a ddarperir gan eu ALl neu awdurdod esgobol (ble'n addas), rhaid iddynt berchenogi'r polisïau hyn eu hunain, yn unol â'r ddeddfwriaeth Gymraeg berthnasol. Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau.

3. Rhaid i weithdrefnau disgyblu/diswyddo staff fod ar wahân i weithdrefnau cwyno a gallu.

4. Fel gyda phob polisi a gweithdrefn, o bryd i'w gilydd dylai cyrff llywodraethu adolygu gweithdrefnau disgyblu/diswyddo. Rhaid ymgynghori gydag aelodau staff a'u cynrychiolwyr undeb, yr ALl ac awdurdod esgobaethol (ble'n addas) cyn gwneud unrhyw newidiadau arfaethedig.

5. Rhaid i gyrff llywodraethu barchu'r amserlen a nodir yn y gweithdrefnau disgyblu, yn ogystal â'r egwyddorion o gyfiawnder naturiol, dideddrwydd a thegwch.

6. Gall cyrff llywodraethu ddirprwyo achosion o gamymddwyn llai ble nad yw diswyddiad yn ganlyniad posib i'r pennaeth. Dylai'r polisi disgyblu staff nodi'n eglur pa faterion all gael eu trin gan y pennaeth a pha rai y dylid eu cyfeirio at y pwyllgor disgyblu/diswyddo.

7. Rhaid i gyrff llywodraethu gael pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a phwyllgor apêl disgyblu/ diswyddo staff. Fel pob pwyllgor dylai'r aelodaeth gael ei adolygu'n flynyddol. Ni ddylid ei adael nes bod achos yn codi. Ni all yr un llywodraethwyr eistedd ar y ddau bwyllgor.

8. Fel arfer mae pob pwyllgor disgyblu/diswyddo staff yn cynnwys lleiafswm o dri llywodraethwr. Fodd bynnag, ni all y pwyllgor apêl disgyblu/diswyddo staff gynnwys llai o lywodraethwyr na'r pwyllgor cyntaf

9. Ni all y pennaeth fod yn aelod o'r pwyllgor disgyblu/diswyddo staff. Mae hyn oherwydd y bydd y pennaeth yn debygol o fod yn rhan o achos cyn iddo gyrraedd y pwyllgor, a/neu fel all fod yn cyflwyno achosion i'r pwyllgor.

10. Fel arfer ni ddylai cadeirydd y corff llywodraethu fod yn aelod o'r pwyllgor disgyblu/diswyddo staff na'r pwyllgor apêl gan ei bod yn bosib y bydd y pennaeth yn ymgynghori gydag ef/hi yn gynharach yn ystod achos. Yn ogystal â hyn, os gwneir cyhuddiad yn erbyn y pennaeth, bydd yn rhaid i'r cadeirydd gychwyn gweithdrefnau disgyblu.

11. Rhaid i bob pwyllgor penodi clerc. Gall y clerc fod yr un person ar gyfer y ddau bwyllgor ac fe all fod yn glerc y corff llywodraethu.

12. Mae gan gadeiryddion apwyntiedig y ddau bwyllgor bleidlais fwrw.

13. Gall pobl sydd ddim yn llywodraethwyr fod yn aelodau'r ddau bwyllgor ond does ganddynt ddim hawliau pleidleisio. **Fodd bynnag, os oes achos o amddiffyn plentyn yn cael ei ystyried**, rhaid i'r pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a'r pwyllgor apêl gynnwys un person sydd ddim yn llywodraethwr gyda hawl i bleidleisio.

14. Ni all aelod sydd ddim yn llywodraethwr weithredu fel cadeirydd.

15. Fel arfer bydd unrhyw ymchwiliad gan yr awdurdodau statudol (h.y. yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALl) yn cael blaenoriaeth dros weithdrefnau disgyblu'r ysgol.

16. Ble y gwneir cyhuddiadau yn erbyn staff yn ymwneud â materion amddiffyn plentyn, rhaid penodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio'r cyhuddiadau cyn dechrau unrhyw weithdrefnau disgyblu staff.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gwasanaeth ymchwilio annibynnol y gall cyrff llywodraethu ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim ar gyfer cyhuddiadau amddiffyn plentyn, a ystyrir yn gamymddwyn difrifol h.y. petai'n cael ei brofi byddai'n golygu diswyddo aelod o staff. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r swyddog ALl perthnasol, y pennaeth/cadeirydd y corff llywodraethu os y casglir yn ddiamheuol bod y cyhuddiad yn amlwg yn ffug neu ystyrir iddo fod yn gamymddwyn llai – ni fyddai angen penodi ymchwilydd annibynnol i'r corff llywodraethu ac ni fyddai'n rhaid i'r corff llywodraethu ddechrau gweithdrefnau disgyblu (yn achos camymddwyn llai a gaiff ei ddirprwyo, gall y pennaeth ddelio ag ef).

18. Mae cyngor a chanllawiau ar faterion disgyblu staff ar gael ar unrhyw adeg gan eich swyddog cefnogi llywodraethwyr, neu'ch awdurdod esgobaethol (ble'n addas) a chan linell gymorth Llywodraethwyr Cymru ar 0845 6020100.

19. Dylai llywodraethwyr sy'n aelodau o'r pwyllgor disgyblu/diswyddo staff a'r pwyllgor apêl dderbyn hyfforddiant er mwyn cyflawni'r rôl hwn. Gall achosion disgyblu fod yn gymhleth iawn – mae'n hanfodol felly bod llywodraethwyr yn gwybod sut i ddelio gydag achosion.

20. Er bod cylchlythyr 45/2004 Llywodraeth Cymru – **Gweithdrefnau Disgyblu Staff Mewn Ysgolion** yn ganllaw anstatudol, dylai cyrff llywodraethu gymryd sylw o'r cyngor a roir, o ran mabwysiadu ac adolygu eu gweithdrefnau disgyblu/diswyddo. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod cyrff llywodraethu'n ystyried cyngor yr ALl. Os anwybyddir cyngor ac yna bod y corff llywodraethu'n colli achos mewn Tribiwnlys Cyflogaeth, fe all costau unrhyw iawndal orfod dod o gyllideb yr ysgol.

21. Deunydd cyfeiriol hanfodol i lywodraethwyr:

- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
- Gorchymyn Addysg (Addasu Deddfiadau Perthnasol i Gyflogaeth) (Cymru) 2006
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 45/2004: Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2004/11/01/gweithdrefnau-disgyblu-staff-mewn-ysgol/
- Llythyrau oddi wrth Llywodraeth Cymru parthed Ymchwilio i Honiadau Ymchwilwyr Annibynnol yn Erbyn Staff Ysgol Sy'n Ymwneud a Materion Amddiffyn Plant http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2007/08/30/ymchwilio-i-honiadau-ymchwilwyr-annibynnol-yn-erbyn-staff-ysgol-syn-ymwneud-materion-amddiffyn-plant/
- Cod Ymarfer ACAS ar Weithdrefnau Disgyblu a Chwyno, ar gael ar www.acas.org.uk

Dim ond crynodeb yw hwn o rai o'r prif bwyntiau y dylai llywodraethwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth gynhyrchu a gweithredu gweithdrefnau disgyblu staff. Dylid darllen yr wybodaeth ar y cyd gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau a restrir ym mharagraff 21 uchod; gweithdrefn disgyblu staff eich corff llywodraethu a gwybodaeth gan eich ALl ac awdurdod esgobaethol ble'n addas.

# 4. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOG PENNAETH

Mae'n ddyletswydd statudol ar gorff llywodraethu pob ysgol i gytuno ar ac adolygu amcanion perfformiad ar gyfer eu pennaeth o ran arweiniad a rheolaeth yr ysgol a chynnydd disgyblion.

Bydd angen i bob corff llywodraethu:

- Adolygu cyflog y pennaeth yn erbyn amcanion perfformiad sy'n bodoli eisoes;
- Cytuno ar amcanion perfformiad ar gyfer y pennaeth am y flwyddyn i ddod, fydd yn cyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'i gyflog/chyflog mewn blwyddyn.

### Pwy ddylai fod yn rhan ohono?

Fel arfer caiff penderfyniadau ar gyflog eu dirprwyo i is-bwyllgor, fel arfer is-bwyllgor adolygu cyflog neu bersonél yn cynnwys dau neu dri llywodraethwr. Fodd bynnag, ni all athro lywodraethwyr na staff lywodraethwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn ag adolygu perfformiad y pennaeth, nac yn y broses o gasglu a dadansoddi tystiolaeth sy'n cyfrannu at yr adolygiad. Fe gânt gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau cyffredinol ynglŷn â threfniadau rheolaeth perfformiad yr ysgol.

### Gosod amcanion perfformiad

Dyma'r prif ddyletswyddau statudol y dylai cyrff llywodraethu eu cyflawni o ran Rheolaeth Perfformiad:

- Monitro ac adolygu'r polisi Rheolaeth Perfformiad bob blwyddyn ysgol;
- Gosod amcanion perfformiad a monitro adolygiad y pennaeth trwy gyfrwng llywodraethwyr apwyntiedig gyda help ymgynghorydd allanol.

Mae ansawdd ei arweinyddiaeth a rheolaeth yn sylfaenol i effeithiolrwydd yr ysgol. Dengys tystiolaeth arolwg bod y llywodraethwyr a'r uwch dîm rheoli yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus yn dangos cyfeiriad clir gyda phwyslais ar godi safonau. Mae cytuno i amcanion perfformiad yn ffordd cryf o ganolbwyntio gwaith y pennaeth. Dylai amcanion perfformiad fod yn ganlyniad i gydweithio rhwng llywodraethwyr a phennaeth o ran:

- Datblygiad disgyblion;
- Arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

Wrth gytuno ar amcanion, dylid ystyried y canlynol:

1) Dylai'r amcanion fod yn berthnasol i flaenoriaethau a nodir yn y CDY neu'r CGY a'r cynllun gweithredu'n dilyn arolwg;

2) Dylai'r amcanion fod yn berthnasol i anghenion yr ysgol ac anghenion y pennaeth;

3) Dylid cael dangosyddion perfformiad i bob un o'r amcanion er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o'r math o dystiolaeth a ddefnyddir i werthuso perfformiad;

4) Ni ddylid cynnwys gormod o amcanion na rhai sydd ddim yn ddigon penodol. Mae arfer gorau'n dynodi bod o leiaf 3 ond dim mwy na 5-6 yn addas;

5) Unrhyw oblygiadau i adnoddau;

6) Unwaith y cytunir arnynt, dylai llywodraethwyr ystyried amcanion perfformiad ar gyfer y pennaeth yn fater cyfrinachol.

## Monitro cynnydd

Dylai'r gweithdrefnau gael eu cytuno gan y 2-3 llywodraethwr sy'n monitro perfformiad y pennaeth.

Efallai ei bod yn werth derbyn adborth yn dymhorol gan y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad. Dylid rhoi anogaeth a chlod hefyd. Gellir delio gyda newid mewn amgylchiadau a gwneud newidiadau os oes angen. Bydd ymgynghorydd allanol yn helpu'r 2-3 llywodraethwr gyda'r adolygiad o amcanion y flwyddyn hon ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'n well cynnal adolygiadau tymhorol ffurfiol a chreu agenda ar gyfer yr adolygiad sy'n rhoi cyfle:

(1) i'r pennaeth adrodd ar gynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion a gytunwyd;

(2) i ddiwygio amcanion neu flaenoriaethau o ganlyniad i amgylchiadau arbennig;

(3) i roi anogaeth a chlod;

(4) i adolygu dyraniad adnoddau.

Gall yr ymgynghorydd helpu'r corff llywodraethu adolygu perfformiad yn ystod y flwyddyn gyfredol ac wrth benderfynu ar amcanion realistig ond heriol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

# 5. SUT I DDELIO GYDA CHWYN

Mae'r mwyafrif o ysgolion yn llefydd hapus i staff a disgyblion y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag fe all problemau godi o bryd i'w gilydd ac fe allwch ddisgwyl iddynt gael eu datrys yn gyflym, sensitif ac effeithiol gan yr athro dosbarth neu'r pennaeth.

Fodd bynnag, mae gan bob rhiant hawl ddilys i ddisgwyl i'r ysgol ddarparu ar gyfer anghenion arbennig eu plentyn a bod y plentyn yn cael ei drin yn deg tra yng ngofal yr ysgol. Os yw rhiant, fel sy'n digwydd weithiau, yn teimlo bod eu plentyn yn dioddef anghyfiawnder neu nad ydynt yn fodlon gyda chynnydd eu plentyn neu'r dysgu a ddarparir gan yr ysgol am rhyw reswm, fe allant ddwyn cwyn gerbron llywodraethwr yn yr ysgol.

Os yw rhiant neu rywun arall yn dod â chwyn ger eich bron, cofiwch bod yna ffordd ddilys o helpu. Fe ddylech:

- gofio na allwch ddatrys y broblem yn uniongyrchol gan mai cyfrifoldeb y pennaeth yw rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd.
- osgoi rhoi'r argraff i'r rhiant/person sy'n cwyno y gallwch ddatrys y broblem oherwydd eich bod yn awyddus i helpu. Peidiwch byth ag addo'r hyn na allwch ei gyflawni!
- gyfyngu'ch hun i egluro i'r rhiant beth yw polisi neu arfer perthnasol yr ysgol, ond dim ond os ydych yn sicr ohonynt!
- gyfeirio'r rhiant/person sy'n cwyno at y pennaeth a ddylai gael cyfle i ddatrys y broblem, yn foddhaol i'r rhiant gobeithio (yn y mwyafrif o achosion o gwyn, dyma fydd y canlyniad). Dyma'r drefn oni bai bod y cwyn am y pennaeth;
- Os nad yw'r rhiant/person sy'n cwyno yn argyhoeddedig bod y broblem wedi ei datrys yn foddhaol, rhaid i chi gofio mai cyfrifoldeb y pennaeth yw rheoli'r ysgol, er cymaint yr hoffech helpu. Yn yr un modd, does gan lywodraethwyr unigol ddim pŵer pan yn gweithredu fel unigolion. O ganlyniad, rhaid cyfeirio cwyn sydd heb ei datrys at gadeirydd y corff llywodraethu ac yna bydd ef/hi'n cyflwyno'r mater i'w ystyried gan banel o lywodraethwyr.

# GWEITHDREFNAU CWYNO

Mae gweithdrefn cwyno: ***"yn ffordd o sicrhau y gall unrhyw un â diddordeb yn yr ysgol ddatgan pryder yn hyderus y caiff ei glywed a'i drin mewn modd addas ac amserol."*** (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 39/2006 a Rhif 03/2004).

- Yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid bod gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin yng Nghymru weithdrefnau mewn bodolaeth ar gyfer delio gyda chwynion gan rieni, staff, llywodraethwyr, disgyblion ac aelodau'r gymuned ayb, ynglŷn â'r ysgol a'i darpariaeth o adnoddau neu wasanaeth dan Adran 27 o'r Ddeddf.
- Mae'n ofynnol bod cyrff llywodraethu'n cyhoeddi eu gweithdrefnau cwyno, gan ddynodi sut i gael copi. Dylid cyhoeddi crynodeb ym mhrosbectws yr ysgol. Fe all ysgolion hefyd gyfeirio eu gweithdrefnau cwyno mewn deunydd eraill e.e. adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni, cylchlythyrau'r ysgol, cytundeb cartref-ysgol, gwefan yr ysgol ayb.

- Bydd cwynion ac apeliadau yn ymwneud â'r Cwricwlwm, Anghenion Addysgol Arbennig, addoli crefyddol, derbyn, gwaharddiadau, cwynion staff, disgyblu staff a gallu staff yn cael eu cynnwys dan weithdrefnau statudol eraill.

- Dylai'r corff llywodraethu ymgynghori gyda staff, rhieni a disgyblion ar y gweithdrefnau cwyno drafft, os cânt eu diwygio, cyn eu gweithredu. Dylai bod staff a disgyblion yn gallu cael copi o'r weithdrefn cwynion.

- Efallai y bydd cyrff llywodraethu eisiau ystyried cynhyrchu fformat ar wahân ar gyfer disgyblion ac oedolion, er mwyn darparu gwybodaeth addas a hygyrch i bawb. Ceir awgrymiadau o daflenni cwyno ar gyfer disgyblion yng Nghylchlythyr Rhif. 39/2006.

- Rhaid i gyrff llywodraethu dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru wrth lunio a chyhoeddi gweithdrefnau. Ceir manylion ar ddiwedd yr adran hon.

- Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu gweithdrefnau cwyno'n cynnwys y canlynol:
    - Egwyddorion sy'n sail i'r weithdrefn;
    - Rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n rhan ohono;
    - Gweithdrefnau ar gyfer delio gyda gwahanol fathau o gwynion;
    - Amserlen;
    - Gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a monitro cwynion;
    - Gweithdrefnau ar gyfer gweithredu unrhyw weithredoedd sy'n codi o ddatrys cwynion neu o fonitro tueddiadau;
    - Sut gall disgyblion gael cefnogaeth eirioli.

- Fel arfer fe argymhellir y dull 3 cham (h.y. derbynnydd cyntaf, pennaeth, corff llywodraethu) i ddatrys cwynion. Fodd bynnag, mae yna sefyllfaoedd pan nad yw'r dull 3 cham yn addas a bydd angen ei addasu e.e. cwynion yn ymwneud a'r corf llywodraethu cyfan, llywodraethwr unigol, y cadeirydd, y pennaeth ayb. Ceir gwybodaeth ynglŷn â hyn yn y canllaw a restrir ar y diwedd.

- Rhaid i gyrff llywodraethu gael pwyllgor cwynion yn cynnwys o leiaf 3 llywodraethwr. Gellir sefydlu pwyllgor apêl cwynion hefyd os dymuna'r corff llywodraethu.

- Rhaid gweithredu didueddrwydd, tryloywder a thegwch trwy gydol y broses gwyno.

- Bydd angen i gyrff llywodraethu fonitro'r prif faterion neu dueddiadau sy'n codi yn dilyn cwynion, er mwyn diwygio gweithdrefnau/polisïau'r ysgol os oes angen.

- Mae cyngor a chanllawiau ar gael bob amser gan eich swyddog cefnogi llywodraethwr o fewn yr ALl ac ar linell gymorth Llywodraethwyr Cymru ar 0845 6020100. Efallai bydd ALl hefyd yn cynhyrchu gweithdrefnau cwyno enghreifftiol i helpu cyrff llywodraethu.

Deunydd cyfeiriol hanfodol i lywodraethwyr:

Cylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 03/2004 **Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion** a 39/2006 **Canllaw i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ar Weithdrefnau Cwyno'n Ymwneud â Disgyblion**, ar gael ar www.wales.gov.uk

D.S **DIM OND CRYNODEB** YW HYN O RHAI O'R PRIF BWYNTIAU Y DYLAI LLYWODRAETHWYR FOD YN YMWYBODOL OHONYNT PAN YN CYNHYRCHU A GWEITHREDU GWEITHDREFNAU CWYNO. DYLID DARLLEN AR Y CYD GYDA'R CANLLAW UCHOD A GWYBODAETH A GYNHYRCHIR GAN EICH ALl.

# 6. Y CORFF LLYWODRAETHU A CHYLLIDEB YR YSGOL

## Rheoli Ysgolion yn Lleol

Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldeb am gyllidebau eu hysgol unigol dan y cysyniad o Reoli Ysgolion yn Lleol (LMS) ers 1988. Yr egwyddor y tu ôl i LMS yw bod trosglwyddo gwneud penderfyniadau i lefel yr ysgol unigol yn arwain at well effeithiolrwydd ac atebolrwydd o ran defnydd adnoddau, ac felly'n well darpariaeth i ddisgyblion.

Mae gan lywodraethwyr rôl strategol yn rheolaeth cyllidol yr ysgol, a dyma'r prif gyfrifoldebau:

- Gosod blaenoriaethau cyllidol i adlewyrchu Cynllun Datblygu yr Ysgol;
- Cydymffurfio gyda'r amodau yng Nghynllun Dirprwyo'r ALl ar faterion fel tendro, cytundebau, archwilio a gofynion gwerth gorau;
- Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol;
- Monitro a rheoli gwariant;
- Cymeradwyo newidiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, er enghraifft trwy drosglwyddiad (symud arian o un pennawd yn y gyllideb i un arall);
- Cymeradwyo lefelau dirprwyo penderfyniadau cyllidol o fewn yr ysgol, er enghraifft i'r pwyllgor cyllid, cadeirydd y llywodraethwyr, pennaeth a staff uwch eraill;
- Meddwl yn y tymor hirach gyda'r symudiad presennol at gynllunio cyllidol 3-blynedd;
- Penderfynu defnyddio gwasanaethau a gyflenwir gan yr ALl fel cynnal adeiladau a Thechnoleg Gwybodaeth, neu cael y gwasanaethau hyn o rywle arall;
- Rheoli adnoddau'n effeithiol;
- Adrodd ar unrhyw gyllid a dderbynnir ar gyfer ei neilltuo, er enghraifft trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell;
- Adrodd i rieni yn yr Adroddiad Blynyddol ar sut y gwariwyd arian a ddyrannwyd i'r ysgol.

Os yw'r ALl yn ystyried bod y corff llywodraethu wedi methu'n sylweddol neu'n barhaol a chydymffurfio gyda'r Cynllun Dirprwyo, neu nad yw wedi gwario cyfran cyllideb yr ysgol yn effeithiol, yna gall yr ALl wahardd hawl y corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyol dros dro.

## Sut mae'r system gyllido'n gweithio

Caiff cyllidebau o fewn y Gwasanaeth Addysg Lleol eu paratoi o fewn gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Mae tri prif faes:

(a) **Cyllideb ALl**

Arian sydd wedi ei gadw'n ganolog i gwrdd â dyletswyddau statudol yr ALl i gefnogi addysg yw'r gyllideb hon. Mae'n cynnwys:

i. Gwelliant Ysgol – monitro a chefnogi datblygiad ysgolion;

ii. Rheolaeth strategol – yn cynnwys cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Addysg cyfan;

iii. Darpariaeth Arbennig – yn cynnwys y prosesau yn ymwneud a chwrdd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) disgyblion, er enghraifft trwy'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg;

iv. Mynediad i Addysg – yn cynnwys derbyn, cynllunio lleoedd ysgol, trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol, gwasanaeth lles addysg, dyfarniadau myfyrwyr;

v. Addysg Oedolion/Cymunedol a'r Gwasanaeth Ieuenctid.

(b) **Cyllideb Ysgolion**

Dyma arian all gael ei ddal yn ganolog a'i wario gan yr ALl ar wasanaethau i ysgolion, ond fe ellir ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion hefyd, yn gyfan neu'n rhannol. Mae'n cynnwys:

i. Gwariant a gefnogir gan grant penodol, er enghraifft trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell;

ii. Darpariaeth arbennig fel unedau cyfeirio disgyblion, gwasanaethau ar gyfer disgyblion gyda nam ar eu clyw neu eu golwg, dysgu iaith Gymraeg, darpariaeth a nodir mewn datganiadau AAA;

iii. Cinio Ysgol (ysgolion cynradd ac arbennig yn unig, rhaid dirprwyo i ysgolion uwchradd);

iv. Gwasanaeth cynghori i ysgolion.

(c) **Cyllideb Ysgolion Unigol (CYU)**

Y CYU yw'r cyfanswm a ddirprwyir yn uniongyrchol i'r ysgol. Cyflawnir hyn trwy fformiwla cyllido a lunnir gan yr ALl. Rhaid ymgynghori ar hwn gyda Chyrff Llywodraethu a phartïon eraill sydd a diddordeb.

Mae'r rhan fwyaf o gyllid o leiaf 70% wedi ei ddirprwyo yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gofrestredig yn yr ysgol a chaiff ei asesu trwy'r uned a bwysolwyd ar sail oedran y plentyn (AWPU).

Asesir gweddill y cyllid gan ystyried ffactorau fel:

- Maint yr adeiladau;
- Cwmpas anghenion arbennig yr ysgol;

- Gwasanaethau cefnogi sydd eu hangen (cyfreithiol, cyllidol, personél, TGCh, cefnogi llywodraethwr ayb);

- Gweithrediad parhaus cytundeb llwyth gwaith yr ysgol.

Yn ogystal â'r gyllideb ddirprwyedig mae'r ysgol yn derbyn arian datganoledig gan y Gronfa Ysgolion Gwell, er mwyn gweithredu mentrau Llywodraeth Cymru.

**Paratoi'r gyllideb (h.y cynllun gwario'r ysgol)**
Mae'r prif benawdau yn y gyllideb yn cynnwys:

- Cyflog gweithwyr, yswiriant gwladol, pensiynau a chyflenwi salwch – staff sy'n dysgu a staff sydd ddim yn dysgu;
- Treth y pen – adnoddau addysgiadol yn cynnwys llyfrau, offer argraffu, adnoddau, yn arbennig TGCh;
- Adeiladau – cynnal a chadw adeiladau a thir, glanhau, treth cyngor, dwr;
- Ynni – nwy, trydan, olew;
- Cyflenwadau eraill – ffonau, printio ayb;
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth – cyllidol, cyfreithiol ayb;
- Incwm o grantiau, rhoddion, ffioedd gosod ayb.

Dyma rai materion sydd angen i lywodraethwyr eu hystyried wrth baratoi ac adolygu'r gyllideb:

(a) **Cronfeydd a diffygion**

Mae'n synhwyrol i gynllunio ar gyfer cwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol a ddisgwylir. Fodd bynnag, fel arfer bydd arian dros ben i'r diben hwn o fwy na 5% neu £10,000, pa un bynnag yw'r mwyaf, yn denu ymholiadau gan yr ALl. Gellir ei gyfiawnhau os ydy'r ysgol yn neilltuo arian ar gyfer eitem fawr o wariant.

Gall yr ALl gyfeirio'r corff llywodraethu ar sut i wario unrhyw warged ym mantolen yr ysgol mewn cyfnod ariannu petai:

- Gwarged o £50,000 neu fwy yn bodoli mewn achos ysgol gynradd,
- Gwarged o £100,000 neu fwy yn bodoli mewn achos ysgol uwchradd neu ysgol arbennig.

Os nad yw'r corff llywodraethu'n cydymffurfio gyda'r fath gyfeiriad, gall yr ALl fynnu bod y corff llywodraethu yn talu'r gwarged i'r awdurdod yn llawn neu yn rhannol.

Yn gyffredinol ni chaniateir i lywodraethwyr osod cyllideb o ddiffyg. Fodd bynnag, caiff ei ganiatáu mewn amgylchiadau arbennig trwy gytundeb gyda'r ALl a byddai'n golygu mesurau i gynhyrchu cyllideb gytbwys o fewn cyfnod penodol o amser.

Am fwy o wybodaeth, gweler Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/824/contents/made/welsh

(b) **Niferoedd disgyblion a maint dosbarthiadau**

Gan fod yna gysylltiad uniongyrchol rhwng nifer disgyblion a cyllid ysgol mae angen i lywodraethwyr gadw llygad ar niferoedd disgyblion arfaethedig a'u hystyried wrth gynllunio cyllideb, yn arbennig o ran lefelau staffio.

Er mai cyfrifoldeb y Pennaeth yw trefnu dosbarthiadau o fewn yr ysgol, mae dyletswydd statudol i sicrhau bod dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 1 yn cael eu cadw i dan 30 disgybl. Yn ogystal â hyn, polisi Llywodraeth Cymru yw cadw dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 2 i dan 30.

(c) **Staffio**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwario o leiaf 80% o'u cyllideb ar staffio, felly mae'n faes hollbwysig. Rhaid i lywodraethwyr hefyd dalu sylw i'r Cytundeb Llwyth Gwaith Ysgol, sy'n effeithio ar staffio mewn ffyrdd pwysig.

- Tynnu tasgau gweinyddol cyffredinol oddi ar athrawon;
- Lleiafrif o 10% gwarantedig o amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon;
- Cyfyngiad o 38 awr y flwyddyn o gyflenwi i athrawon absennol;
- Gofyn am ddyraniad rhesymol o amser ar gyfer cyfrifoldebau rheolaeth ac arweiniad.

Am fwy o wybodaeth, gweler Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol
http://www.education.gov.uk/schools/careers/payandpensions/a0064179/school-teachers-pay-and-conditions-document-2010

(d) **Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) neu Cynllun Gwelliant Ysgol (CGY)**

Mae angen cysylltiad agos rhwng y CDY neu'r CGY a'r gyllideb. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y bydd y gyllideb fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol (1af Ebrill – 31 Mawrth) tra bod y CGY/CDY fel arfer yn seiliedig ar y flwyddyn ysgol (1af Medi – 31 Awst).

Rhaid dangos goblygiadau cost eitemau yn y CDY, a dylid cyllidebu mentrau newydd yn ofalus cyn eu cymeradwyo.

(e) **Ffynonellau cyllid eraill**

Yn ogystal â chyllideb yr ysgol, mae angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o, a chymryd mantais o nifer o ffynonellau cyllid eraill, fel grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Loteri Fawr a nawdd masnachol. Fel arfer cynhwysir codi arian o fewn yr ysgol yng Nghronfa'r Ysgol, sy'n cael ei gadw ar wahân i gyllideb yr ysgol. Mae angen i lywodraethwyr dderbyn adroddiadau rheolaidd ar y cronfeydd answyddogol hyn a sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Yn ogystal â hyn mae gan nifer o ysgolion Gymdeithas Rhieni Athrawon gweithredol a Chymdeithas Cyfeillion, sy'n trefnu digwyddiadau i godi arian ac fel arfer yn cadw eu cyfrifon eu hunain.

## Fforymau Cyllideb Ysgol

Mae Fforymau Cyllideb Ysgol yn ffordd bwysig i lywodraethwyr ddylanwadu ar y cyllid sydd ar gael i ysgolion gan yr ALl. Cawsant eu sefydlu dan Ddeddf Addysg 2002 gyda'r prif nod o "ddatblygu deialog gwybodus a hyderus rhwng ALl ac ysgolion ar faterion cyllidebol" (cylchlythyr canllaw 46/03 Llywodraeth Cymru **Canllaw ar Sefydlu Fforymau Ysgol yng Nghymru**).

Mae swyddogaethau manwl y Fforwm yn amrywio o un ALl i un arall ond mae'r amrywiaeth canlynol o faterion yn nodweddiadol:

- Lefelau cyllido ysgolion am y flwyddyn i ddod;
- Pwysau ar gyllidebau'r dyfodol, yng nghyd destun y symudiad at gyllidebau 3-blynedd;
- Newidiadau i fformiwla Rheoli Ysgolion yn Lleol, sy'n pennu sut y dyrannir cyllid i ysgolion;
- Cyllid dirprwyedig i ysgolion dan y Gronfa Ysgolion Gwell;
- Contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth i ysgolion.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru'n nodi'n eglur y dylai mwyafrif aelodau'r Fforwm fod yn llywodraethwyr a phenaethiaid. Does dim gofyn am gydraddoldeb rhifau rhwng llywodraethwyr a phenaethiaid ac mae cynrychiolaeth yn amrywio ar draws Cymru.

Corff ymgynghorol yw'r fforwm, sydd ddim yn gwneud penderfyniadau, ond fe all fod yn ddylanwadol trwy edrych ar ffactorau fel y canlynol:

- Yr anghydraddoldeb rhwng gwariant ar bob disgybl o un ALl i'r llall;
- I ba raddau y mae'r ALl yn dirprwyo cyllid i ysgolion;
- Cyfran addysg o gyllid cyfalaf yr Awdurdod;
- Sut mae gwariant ar addysg yn cymharu gyda'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai'r Awdurdod fod yn ei wario).

Mae profiad yn awgrymu bod Fforymau Cyllideb Ysgol yn gwneud gwahaniaeth mewn dwy ffordd o leiaf:

i. Gwneud cyllido ysgolion yn fwy eglur i lywodraethwyr a phenaethiaid;

ii. Rhoi gwell dealltwriaeth o anghenion gwario ysgolion i aelodau'r Cyngor a swyddogion (yn arbennig y Cyfarwyddwr Cyllid).

# 7. Y CWRICWLWM

Cyflwynwyd cwricwlwm diwygiedig i blant 3 – 19 oed yng Nghymru ym mis Medi 2008. Mae'r cwricwlwm newydd yn diwallu anghenion dysgwyr unigol tra'n cymryd i ystyriaeth anghenion ehangach Cymru. Nod y cwricwlwm yw:

- canolbwyntio ar y dysgwr;
- sicrhau bod datblygiad sgiliau priodol wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm cyfan;
- canolbwyntio ar barhad a chynnydd 3-19 trwy adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen a chysylltu'n effeithiol gyda'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19;
- cefnogi polisi'r Llywodraeth, yn cynnwys dwyieithrwydd, Cwricwlwm Cymreig, Ewrop a'r Byd, cyfleoedd cyfartal, bwyd a ffitrwydd, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang a byd gwaith ac entrepreneuriaeth;
- parhau i gyflwyno cwricwlwm gwahaniaethol sydd yn briodol i Gymru.

## Cyfnod Sylfaen

Datblygwyd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer anghenion plant ifanc tra'n ategu a hyrwyddo dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Y saith maes dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol;
- Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu;
- Datblygiad Mathemategol;
- Dwyieithrwydd;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol.

Cyflwynir y Cyfnod Sylfaen dros bedair blynedd fel â ganlyn:

- Medi 2008 i bob plentyn 3-4 oed yn y Cyfnod Sylfaen
- Medi 2009 i bob plentyn 4-5 oed yn y Cyfnod Sylfaen
- Medi 2010 i bob plentyn 5-6 oed yn y Cyfnod Sylfaen
- Medi 2011 i bob plentyn 6-7 oed yn y Cyfnod Sylfaen

O'r dyddiadau hyn, disodlir y cwricwlwm cenedlaethol cyfredol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/foundationphase/?skip=1&lang=cy

## Cwricwlwm Ysgol

Yn ôl y gyfraith rhaid i'r cwricwlwm fod yn gytbwys ac yn eang ei sylfaen a rhaid iddo hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion a chymdeithas a pharatoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion. Rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg grefyddol, addoli ar y cyd, addysg rhyw ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gyrfaoedd a byd gwaith hefyd yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i blant 11 – 19 oed.

## Cwricwlwm Cenedlaethol

Trefnir y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn pedwar cyfnod, a elwir yn Gyfnodau Allweddol.

| ***Cyfnod Allweddol*** | ***Blwyddyn Ysgol*** | ***Oedran Disgyblion*** |
|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen * | 1 a 2 | *3 - 7* |
| 2 | 3, 4, 5 a 6 | *7 - 11* |
| 3 | 7, 8 a 9 | *11 – 14* |
| 4 | 10 a 11 | *14 - 16* |

** Gweler y wybodaeth flaenorol am y Cyfnod Sylfaen*

**Cwricwlwm Ysgol – Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ac ôl 16**

| **7 – 14** | | **14 - 19** | |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 2** | **Cyfnod Allweddol 3** | **Cyfnod Allweddol 4** | **ôl-16** |
| **Gofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol** | | | |
| Saesneg | Saesneg | Saesneg | |
| Cymraeg **+** | Cymraeg **+** | Cymraeg **+** | |
| Ieithoedd Tramor Modern **#** | Ieithoedd Tramor Modern | | |
| Mathemateg | Mathemateg | Mathemateg | |
| Gwyddoniaeth | Gwyddoniaeth | Gwyddoniaeth | |
| Dylunio a thechnoleg | Dylunio a thechnoleg | | |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | | |
| Hanes | Hanes | | |
| Daearyddiaeth | Daearyddiaeth | | |
| Celf a Dylunio | Celf a Dylunio | | |
| Cerddoriaeth | Cerddoriaeth | | |
| Addysg Gorfforol | Addysg Gorfforol | Addysg Gorfforol | |
| **Gofynion statudol eraill** | | | |
| Addysg Grefyddol | Addysg Grefyddol | Addysg Grefyddol | Addysg Grefyddol |
| Addysg Rhyw **˚** | Addysg Rhyw | Addysg Rhyw | Addysg Rhyw |
| | Gyrfaoedd a byd gwaith | Gyrfaoedd a byd gwaith * | Gyrfaoedd a byd gwaith * |
| Addysg bersonol a chymdeithasol | Addysg bersonol a chymdeithasol | Addysg bersonol a chymdeithasol * | Addysg bersonol a chymdeithasol * |

**+** cyfeirio at y modelau ar gyfer Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith

**#** Mae fframwaith heb fod yn statudol Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer ieithoedd modern tramor

**˚** Mae'n ofynnol i ysgolion cynradd yng Nghymru gael polisi ar addysg rhyw

***** Mae gan ddysgwyr llawn amser yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 hawl i'r Craidd Dysgu 14–19, ac mae'r rhain yn rhan ohono.

Cyflwynir pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig fel â ganlyn:

**Medi 2008** Blynyddoedd 3, 4, 5 a Blynyddoedd 7 ac 8

**Medi 2009** Blynyddoedd 6, 9 a Blwyddyn 10: Cymraeg ail iaith ac addysg gorfforol

**Medi 2010** Blwyddyn 10: Saesneg, Cymraeg a Mathemateg
Blwyddyn 11: Cymraeg ail iaith ac addysg gorfforol

**Medi 2011** Blwyddyn 11: Saesneg, Cymraeg a Mathemateg

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/?skip=1&lang=cy

### Datblygu Sgiliau

Mae datblygu sgiliau yn sylfaen i fframwaith y Cyfnod Sylfaen, holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol a hefyd y fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a byd gwaith ac addysg grefyddol, a'r nod yw sicrhau ymagwedd glir tuag at ddysgu.

Bydd y sgiliau hyn yn galluogi dysgwyr o unrhyw oedran i ddod yn llwyddiannus, boed yn yr ysgol, y gweithle, yn y cartref neu yn rhywle arall. Mae'r rhan hwn o'r cwricwlwm yn ategu gofynion cyflogwyr ac eraill a bydd yn gymorth i ddelio gyda phryderon cyfredol am brinder sgiliau yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd yn gyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/skillsdevelopment/?skip=1&lang=cy

## Gofynion eraill y cwricwlwm

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ffurfio rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig rhwng 7 ac 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Cyfrifoldeb yw ysgolion yw cynllunio a chyflwyno rhaglen eang, gytbwys o ABC hi ddiwallu anghenion penodol dysgwyr. Mae ABCh yn paratoi disgyblion i fod yn bersonol ac yn gymdeithasol effeithiol trwy ddarparu profiadau dysgu lle y gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth priodol. Nod ABCh yn benodol yw:

- datblygu hunan barch a synnwyr o gyfrifoldeb personol dysgwyr;
- hyrwyddo hunan barch, parch tuag at eraill a dathlu amrywiaeth;
- arfogi dysgwyr i fyw bywydau diogel, iach;
- paratoi dysgwyr ar gyfer dewisiadau a chyfleoedd dysgu gydol oes;
- ymrymuso dysgwyr i gymryd rhan yn eu hysgolion a chymunedau fel dinasyddion cyfrifol gweithgar yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang;

- meithrin ymagweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang;

- paratoi dysgwyr ar gyfer sialensau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd oedolion.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/pse/?skip=1&lang=cy

## Gyrfaoedd a Byd Gwaith

Mae gyrfaoedd a Byd Gwaith (GBG) yn ffurfio rhan o'r cwricwlwm sylfaenol o bob disgybl cofrestredig rhwng 11 ac 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu y Llwybrau Dysgu 14-19 oed.

Mae'n dwyn ynghyd ac yn adolygu'r fframweithiau blaenorol ar gyfer addysg yn berthynol i waith, ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd. Mae GBG yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn barod i gymryd eu lle mewn byd gwaith sydd yn newid yn gyflym o fewn yr economi byd-eang.

Dylai GBG helpu dysgwyr i:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyaeth a dysgu gydol oes;
- cynllunio a rheoli eu llwybr trwy'r ystod o gyfleoedd mewn dysgu a gwaith;
- gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol;
- dod yn entrepreneuraidd;
- ffynnu mewn amrywiol leoliadau gwaith;
- dod yn gymhelliol, nodi nodau hir dymor a goresgyn rhwystrau;
- gweld perthnasedd eu hastudiaethau i'w bywyd a'u gwaith;
- datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr eu hangen;
- paratoi ar gyfer sialensau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd oedolyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/careerseworldofwork/?lang=cy

## Addysg Rhyw

Yn ôl y gyfraith rhaid i bob ysgol a gynhelir gael polisi addysg rhyw ysgrifenedig wedi'i ddiweddaru, sydd ar gael i'w ddarllen, yn enwedig gan rieni. Ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir mae addysg rhyw yn orfodol. Mewn ysgolion cynradd mater i'r ysgolion unigol, mewn ymgynghoriad gyda'r llywodraethwyr, yw penderfynu sut orau i ddelio gydag addysg rhyw, yn unol ag anghenion disgyblion a chymeriad ac ethos yr ysgol.

## Addysg Grefyddol

Mae Addysg Grefyddol yn bwnc statudol ar gyfer pob disgybl ysgol, ac eithrio'r rhai y mae eu rhieni wedi'u tynnu o'r gwersi. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthynol i golegau Addysg Bellach. Rhaid i Addysg Grefyddol adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw traddodiadau crefyddol yng ngwledydd Prydain, tra'n cymryd i ystyriaeth dysgeidiaethau ac ymarferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng ngwledydd Prydain.

Yn ôl y fframwaith Addysg Grefyddol mae'n ofynnol:

- hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn cynnwys y rhai mewn lleoliadau meithrin;
- darpariaeth priodol i bob disgybl cofrestredig ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru;
- dylid astudio Cristnogaeth ym mhob cyfnod allweddol ac mai'r prif grefyddau eraill yw'r rhai a gynrychiolir yng ngwledydd Prydain;
- dylai addysg grefyddol fod yn anenwadol, ond nid yw dysgu am gatecism neu fformiwlari neilltuol wedi'i wahardd (h.y. gellir astudio cymariaethau a gwahaniaethau mewn credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion y traddodiadau crefyddol).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/religiouseducation/?skip=1&lang=cy

## Addoli ar y Cyd

Rhaid i bob ysgol (ond nid colegau addysg bellach) ddarparu gweithred dyddiol o addoli ar y cyd sydd yn Gristnogol yn gyffredinol i'w holl ddisgyblion cofrestredig, Gall rhieni dynnu eu plant o addoli ar y cyd a gall disgyblion dros 16 oed dynnu eu hunain allan o addoli ar y cyd.

## Dechrau'n Deg

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cysylltu gyda'r Cyfnod Sylfaen ac mae cyllid ar gael ar ei gyfer yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i gynorthwyo ysgolion a chyrff eraill i helpu plant o'r ardaloedd hyn i gael dechrau teg yn yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy

## 14-19 oed – Rhaglen Llwybrau Dysgu

Darparu cyfleoedd newydd i rai rhwng 14 -19 oed yn cynnig mwy o hyblygrwydd a dewis mewn pynciau a'r modd y maent yn cael eu dysgu.

Mae'r fframwaith yn cynnwys chwe prif elfen sydd yn syrthio i ddau gategori:

- darpariaeth i ddysgwyr;
- cefnogaeth i ddysgwyr.

Tair elfen y ddarpariaeth i ddysgwyr yw:

- Llwybr Dysgu Unigol;
- Mwy o ddewis a hyblygrwydd;
- Craidd Dysgu.

Tair elfen y gefnogaeth i ddysgwyr yw:

- Hyfforddwr Dysgu;
- Cefnogaeth Bersonol;
- Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd.

## Cymhwyster y Fagloriaeth Gymreig ôl 16 oed

Cymhwyster yn seiliedig ar gymwysterau traddodiadol (dewisiadau) fel NVQs, Lefel A neu TGAU a'r 'craidd' sydd yn cynnwys Sgiliau Allweddol, model iaith, ymchwiliad unigol, cyfranogiad cymunedol (ABCh) ac addysg yn berthynol i waith. Mae'n darparu fframwaith ac mae'n gatalydd i ddarpariaeth ehangach mwy hyblyg sydd yn unol â Llwybrau Dysgu 14 – 19 oed.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cymhwyster Bagloriaeth Gymreig ar gael yn: www.wbq.org.uk

## Cyfrifoldebau Llywodraethwyr

Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion a gynhelir i sicrhau bod y cwricwlwm statudol yn cael ei weithredu yn eu hysgolion a'r trefniadau asesu cysylltiedig.

Mae nifer o'r materion sydd yn berthynol i gwmpas, ansawdd, trefniadaeth a rheolaeth addysgu'r cwricwlwm mewn ysgolion yn rhan o reolaeth yr ysgol o ddydd i ddydd ac mae'n syrthio o fewn cyfrifoldebau'r pennaeth. Mater i'r corff llywodraethu yw bod yn atebol am weithrediad y polisïau cenedlaethol i ysgolion ac am lunio polisïau a strategaethau lleol i fonitro eu heffeithlonrwydd. Mater i'r pennaeth yw rheoli gweithrediad ymarferol y polisïau hyn o ddydd i ddydd.

Dylai eich is-bwyllgor cwricwlwm gynorthwyo eich corff llywodraethu i gadw dysgu disgyblion wrth galon ei agenda trwy:

- cynorthwyo'r corff llywodraethu llawn i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys er enghraifft:
  - sicrhau bod gweithdrefnau asesu'r cwricwlwm gan athrawon yn cael eu cyflawni;
  - penderfynu polisi ar addysg rhyw;
  - ystyried yr ymagwedd tuag at addysg grefyddol;
  - cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer addoli ar y cyd;
  - gwrando ar apeliadau a chwynion y ymwneud â'r cwricwlwm;

- gwneud penderfyniadau neu helpu'r corff llywodraethu llawn i wneud penderfyniad am agweddau eraill o'r cwricwlwm yn cynnwys polisi'r ysgol ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);

- monitro neu helpu'r corff llywodraethu llawn i fonitro'r effaith y penderfyniadau hynny;

- sicrhau bod gan y corff llywodraethu llawn y wybodaeth a fydd yn ei alluogi i fonitro safonau cyflawniad disgyblion.

# 8. AROLWG YSGOL

Mae'r crynodeb isod yn nodi'r modd y bydd Estyn yn arolygu ysgolion ar gyfer y cylch arolygu chwe blynedd nesa o Medi 2010. **Mae gwybodaeth a chanllaw manwl am y broses arolygu ar gael yn http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/**

Mae gan y corff llywodraethu rôl bwysig iawn i sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg o ansawdd da i'r disgyblion. Mae'n rhannu'r cyfrifoldeb hwn gyda'r pennaeth, staff a'r ALl. Gall Cynllun Datblygu Ysgol/Cynllun Gwelliant Ysgol ac adroddiad hunan werthuso'r ysgol helpu corff llywodraethu i farnu ar gynnydd yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bryderus am safonau ac ansawdd addysg mewn ysgolion unigol, yn ogystal ag ar draws yr holl wasanaeth addysg. Oherwydd hynny mae'n bwysig pan fo arfarniadau'n cael eu gwneud am ansawdd a darpariaeth addysg mewn gwahanol ysgolion bod ymagwedd gyson yn cael ei defnyddio tuag at yr arfarniadau hynny a bod yr un meini prawf yn cael eu defnyddio. I ddiwallu'r gofynion hyn, mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn darparu ymagwedd systematig tuag at arolygon ac mae pob ysgol yn cael ei harolygu o fewn cylch chwe mlynedd.

O dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 a rheoliadau perthynol, o fis Medi 2010 bydd pob ysgol yn cael ei harolygu o leiaf unwaith bob chwe mlynedd gan Arolygaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, a enwir yn Estyn.

Cynhelir arolygon gan dîm o arolygwyr, dan arweiniad Arolygydd Adrodd gydag aelodau eraill o'r tîm, y cyfan yn AEM neu Arolygwyr Ychwanegol (gall Arolygwyr Ychwanegol fod ar secondiad neu ar gontract i'r Arolygiaeth). Bydd gan pob tîm Arolygydd Cymheiriaid hefyd (h.y. aelod o staff o ysgol arall) ac Arolygydd Lleyg (nad yw wedi bod yn rhan o ddarparu na rheoli addysg ysgol, ac eithrio yn wirfoddol). Mae'n orfodol i aelodau'r tîm arolygu gwblhau cwrs hyfforddi a gwerthuso wedi'i drefnu a'i gymeradwyo gan Estyn. Ni ddylai fod gan y tîm arolygu unrhyw gysylltiad gyda'r ysgol gan y gallai hynny daflu amheuaeth rhesymol dros eu gallu i arolygu ac adrodd yn ddiduedd. Yn ogystal â'r uchod, gwahoddir yr ysgol sydd yn cael ei harolygu i ddewis 'enwebai' (aelod o uwch staff yr ysgol) i weithio gyda'r tîm arolygu. Bydd yr enwebai yn darparu cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r tîm arolygu.

### DIBEN AROLWG:

Bydd yr arolwg ysgol yn delio gyda phob agwedd o ddarpariaeth yr ysgol, ar wahân i addysg enwadol a chyd addoliad mewn ysgolion gwirfoddol. Caiff yr ysgolion hyn eu harolygu ar wahân o dan adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 ar gyfer addoli ar y cyd ac addoli crefyddol. Cyflwynwyd y trefniadau arolygu presennol er mwyn:

- darparu modd o ganfod cryfderau a gwendidau i helpu i godi safonau ac ansawdd;
- darparu gwerthusiad annibynnol;
- canfod a hybu arfer da a cheisio rhagoriaeth; a
- gadael i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd wybod beth sy'n digwydd (gweler y rhestr isod).

Bydd ysgolion yn derbyn rhybudd o bedair wythnos cyn arolwg, a bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

- gwybodaeth gefndir allweddol am yr ysgol;
- copi o adroddiad hunan werthuso a Chynllun Gwelliant diweddaraf yr ysgol;
- Manylion am: (i) amserlen yr ysgol dros gyfnod yr arolwg; ac
  (ii) aelodau'r staff a'u cyfrifoldebau.

Yn ystod yr arolwg, gofynnir tri Cwestiwn Allweddol am yr ysgol, fel y nodir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin:

1. Pa mor dda yw'r canlyniadau?
   Dangosyddion Ansawdd:
   1.1 Safonau
   1.2 Lles

2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
   Dangosyddion Ansawdd:
   2.1 Profiadau dysgu
   2.2 Addysgu
   2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
   2.4 Amgylchedd dysgu

3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
   Dangosyddion Ansawdd:
   3.1 Arweinyddiaeth
   3.2 Gwella ansawdd
   3.3 Gweithio mewn partneriaeth
   3.4 Rheolaeth adnoddau

Cefnogir pob un o'r dangosyddion ansawdd uchod gan nifer o wahanol agweddau.

## Adroddiad Hunan Werthuso

Mae **hunan werthusiad** yn ganolog i'r broses arolygu. Bydd ffurflen hunan asesiad ysgol yn fan cychwyn i'r arolwg, yn pwysleisio cryfderau a gwendidau a meysydd i'w datblygu. Fel llywodraethwr felly, mae'n hanfodol bod gennych syniad eglur o'r hyn sy'n digwydd yn eich ysgol. Ydy eich corff llywodraethu yn cyflawni ei rôl strategol? Ydych chi'n gweithredu fel "ffrind beirniadol" i'r ysgol trwy holi am bob agwedd o'i bywyd a'i gwaith? Ydych chi'n gofyn y cwestiynau allweddol ond yn aml syml hynny – Pam? Sut? Ble? Pryd? Ydych chi'n monitro a gwerthuso perfformiad a safonau? Ydych chi'n chwarae rhan weithredol mewn cynhyrchu ac adolygu Cynllun Datblygu/Gwelliant yr Ysgol? Oes gan y corff llywodraethu weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol am y bum mlynedd nesaf?

Gweler 'Llawlyfr Hunan Werthuso ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd 2010' ar
http://www.estyn.gov.uk/download/publication/7807.8/a-self-evaluation-manual-for-primary-schools-2010/
http://www.estyn.gov.uk/download/publication/7862.4/a-self-evaluation-manual-for-secondary-schools-2010/

## Cyn yr arolwg

Bydd yr arolygiaeth yn trefnu i gael briff am yr ysgol gan yr ALl. Bydd yr arolygydd adrodd hefyd yn cwblhau sylwebaeth cyn arolwg (SCA). Bydd hyn yn cynnwys damcaniaeth yn seiliedig ar adroddiad hunan werthuso'r ysgol a gwybodaeth arall y bydd arolygwyr yn ei defnyddio i gyfeirio llinellau ymholiadau yn ystod yr arolwg. Caiff y SCA ei anfon i'r enwebai cyn y rhan o'r arolwg fydd ar y safle.

Rhaid i'r corff llywodraethu, ynghyd â'r pennaeth ac uwch dîm rheoli'r ysgol, fod yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

(i) bod rhieni/gofalwyr a rhan ddeiliaid yn gwybod beth yw dyddiad yr arolwg;

(ii) bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng yr Arolygydd Adrodd a rhieni/gofalwyr disgyblion yr ysgol;

(iii) bod holiaduron yn cael eu hanfon (ar ran Estyn) at rieni/gofalwyr a sampl o'r disgyblion. Bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn arolwg;

(iv) bod y ddogfennaeth amrywiol y gofynnir amdano'n cael ei anfon at y tîm arolygu;

(v) bod y pennaeth, aelodau staff, disgyblion ac enwebai'r ysgol yn derbyn cefnogaeth i baratoi ar gyfer yr arolwg;

(vi) bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng cadeirydd y llywodraethwyr a'r arolygwyr yn ystod cyfnod yr arolwg.

## Yn ystod yr arolwg:

Bydd y tîm arolygu yn:

- arsylwi ar wersi;
- gwrando ar ddysgwyr;
- cynnal cyfweliadau a thrafodaethau gyda disgyblion a staff;
- craffu ar waith disgyblion, dogfennau'r ysgol a thystiolaeth berthnasol arall;

Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol yn yr ysgol h.y:

(1) astudiaeth achos ymarfer da;
(2) monitro gan yr ALl;
(3) monitro gan Estyn;
(4) gwelliant sylweddol; neu
(5) mesurau arbennig.

**Ar ôl yr arolwg:**

(i) Bydd y tîm arolygu yn gwerthuso'r ddarpariaeth ac yn gwneud dau arfarniad crynodeb cyffredinol, yn gysylltiedig gyda'r tri cwestiwn allweddol a 10 dangosydd ansawdd, sydd yn eu tro yn seiliedig ar raddfa 4 pwynt – ardderchog, da, digonol ac anfoddhaol. Bydd yr arfarniadau crynodeb yn cynnwys arfarniad cyffredinol ar berfformiad cyfredol yr ysgol ac ar ragolygon yr ysgol ar gyfer gwelliant;

(ii) Bydd yr Arolygydd Adrodd yn darparu adborth llafar, ar ganfyddiadau'r arolwg ar ddiwedd yr arolwg i'r arweinyddion a'r rheolwyr, yn cynnwys cynrychiolydd o'r llywodraethwyr – fel rheol cadeirydd y llywodraethwyr. Dylid gwahodd cynrychiolydd o'r ALl i fynychu'r cyfarfod. Bydd hyn yn cyfleu'r prif arfarniadau a'r rhesymau drostynt;

(iii) Bydd gan yr ysgol 5 diwrnod gwaith i ystyried ymateb drafft i wirio am gywirdeb ffeithiol;

(iv) Rhaid i'r Arolygydd Adrodd gynhyrchu'r adroddiad arolwg o fewn yr amserlen statudol ar ôl diwedd yr arolwg. Darperir copïau o'r adroddiad am ddim i rieni;

(v) Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, rhaid i'r corff llywodraethu gynhyrchu Cynllun Gweithredu o fewn 45 diwrnod gwaith. Rhaid i'r cynllun gweithredu ddangos beth fydd yn cael ei wneud mewn ymateb i argymhellion yr arolwg. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod yr argymhellion o'r adroddiad yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwelliant Ysgol a'u bod yn cael eu monitro a'u gwerthuso. Dylid cyfathrebu'r adroddiadau ar y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni.

# 9. YMDDYGIAD DISGYBLION

Rhaid i gyrff llywodraethu baratoi datganiad ysgrifenedig o egwyddorion cyffredinol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer polisi cyffredin ar ymddygiad a disgyblaeth, a'i adolygu'n rheolaidd. Dylai hwn ystyried anghenion pob disgybl yn yr ysgol. Pan fo'r corff llywodraethu eisiau cyflwyno mesurau arbennig neu ddelio gyda materion arbennig rhaid iddynt roi gwybod i'r pennaeth ac fe allant ddarparu cyfarwyddyd ble'n addas.

Wrth baratoi neu adolygu ei ddatganiad gall corff llywodraethu gynnwys:

- ethos a gwerthoedd yr ysgol a'r cod moesol;
- ffiniau ymddygiad derbyniol;
- rheolau ymddygiad cadarnhaol ac adeiladol;
- trefniadau i sicrhau defnydd cyson o wobrau a chosbau.

Gall y datganiad hefyd gynnwys egwyddorion atal bwlio.

Wrth lunio ac adolygu'r datganiad, rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori gyda'r pennaeth a rhieni/gofalwyr plant yr ysgol ac ystyried eu barn nhw.

Dylai'r corff llywodraethu oruchwylio cynnal disgyblaeth yr ysgol, gyda'r pennaeth sy'n gorfod gweithredu yn unol â'r datganiad a nodir uchod a chydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddyd y gall y corff llywodraethu ei roi ar fesurau arbennig i hybu ymddygiad da.

Yn unol â datganiad egwyddorion y corff llywodraethu ac unrhyw ganllawiau penodol, dylai'r pennaeth lunio polisi ymddygiad yr ysgol, fydd yn cynnwys rheolau a threfniadau ar gyfer eu gorfodiad.

Rhaid i bolisi ymddygiad yr ysgol gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu yn ogystal â bod yn atebol i adolygiad ffurfiol o bryd i'w gilydd.

Rhaid i'r pennaeth sicrhau bod rhieni, athrawon, staff sydd ddim yn dysgu a disgyblion yn ymwybodol o'r polisi a monitro'i weithrediad yn ofalus.

Dylai'r corff llywodraethu gymeradwyo'r mathau o gosbi a gwobrwyo y mae'r ysgol yn eu defnyddio er mwyn atgyfnerthu ei bolisi ymddygiad.

### Cefnogi Disgyblion

Fe all disgyblion sydd ddim yn ymateb i bolisi ymddygiad yr ysgol fod mewn perygl o gael eu gwahardd. Yn amlwg mae hwn yn gam olaf wedi i bob cosb gael ei ystyried.

## Gwaharddiadau

Ceir dau fath o waharddiad. Mae gwaharddiad **cyfnod penodol** am nifer penodedig o ddiwrnodiau, ac yn rhoi dyddiad dychwelyd i'r ysgol i'r disgybl. Mae **gwaharddiad parhaol** yn golygu tynnu'r disgybl yn barhaol oddi ar gofrestr yr ysgol. Pan gaiff disgybl ei wahardd yn barhaol, mae'n ddyletswydd ar yr ALl i wneud trefniadau amgen addas ar gyfer addysg y plentyn.

Er mai'r pennaeth sy'n penderfynu a ddylai disgybl gael ei wahardd ai peidio, gall penderfyniad i wahardd gael ei adolygu gan y corff llywodraethu ac fe all y disgybl ddychwelyd i'r ysgol.

Dylai'r pennaeth roi gwybod i rieni'n syth am unrhyw benderfyniad i wahardd a rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig o fewn un diwrnod ysgol. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i benaethiaid, cyrff llywodraethu, ALl ac apeliadau annibynnol dalu sylw dyledus i'r cyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru: **Rhif 01/2004 – Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion** a **Rhif 01(A)/2004: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Diwygiadau).** sydd bellach wedi eu cadarnhau. Mae'r rhain yn nodi'r broses a'r amserlen yn ogystal â llythyrau enghreifftiol y gellir eu defnyddio.

## Pwyllgor Disgyblu Disgyblion

Rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu pwyllgor disgyblu, yn cynnwys 3 i 5 llywodraethwr o'r corff llywodraethu, yn cynnwys llywodraethwyr o gategorïau gwahanol, ond ddim yn cynnwys y pennaeth, gyda chworwm o 3. Dylai'r corff llywodraethu hefyd penodi clerc a all roi cyngor a delio gyda'r broses weinyddol.

Mae pob diwrnod y cyfeirir ato yn ddiwrnod ysgol; nid yw penwythnosau a gwyliau yn cael eu hystyried.

## Y Panel Apêl Annibynnol

Pan fo disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol ac mae'r pwyllgor disgyblu'n cynnal y penderfyniad hwnnw, gall y rhieni apelio yn erbyn ei benderfyniad o fewn terfyn amser penodol.

Dylai'r corff llywodraethu baratoi ar gyfer cyflwyno ei resymau am gefnogi penderfyniad y pennaeth i wahardd i'r panel apeliadau annibynnol. Caiff y canlynol gyflwyno'u hachos yn y gwrandawiad, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig:

i) y rhiant a'r disgybl;

ii) y pennaeth;

iii) llywodraethwr a enwebwyd;

iv) swyddog ALl a enwebwyd;

v) gall yr holl bartïon uchod, yn ogystal â'r corff llywodraethu gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol neu arall.

Pan fo'r panel apeliadau annibynnol yn ystyried gadael i ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol, rhaid iddo dalu sylw dyledus i fuddiannau disgyblion eraill a staff ac nid buddiannau'r disgybl a waharddwyd yn unig.

Bydd y panel apêl annibynnol yn cynnwys 3 – 5 aelod yn cynnwys person lleyg, ymarferydd addysg, llywodraethwr ysgol (dim o'r ysgol dan sylw) sy'n gorfod cael ei weld i fod yn ddiduedd.

## Addysg y Plentyn yn dilyn gwaharddiad

Tra bod y disgybl yn parhau ar gofrestr yr ysgol, mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i barhau i addysgu'r disgybl. Fel arfer, dylai disgyblion sydd wedi eu gwahardd am fwy nag 15 diwrnod, o'r diwrnod y cynhaliwyd y penderfyniad i wahardd gan y pwyllgor disgyblu, dderbyn addysg llawn amser ac addas. Fel mewn achos o waharddiad am gyfnod penodedig hirach, efallai bydd angen i'r ysgol geisio help gan yr ALl sy'n cynnal yr ysgol.

Yn dilyn penderfyniad pwyllgor i gynnal penderfyniad o waharddiad parhaol, fydd yr ALl ond yn cymryd cyfrifoldeb ar ôl i'r drefn apeliadau gael ei gwblhau, neu hyd nes bod y terfyn amser ar gyfer apêl wedi mynd heibio neu pan mae'r rhieni wedi hysbysu nad ydynt am apelio. Fel gyda phob polisi, mae'n bwysig eu hadolygu a'u gwerthuso o bryd i'w gilydd.

Dyma rai awgrymiadau o sut y gellir cyflawni hyn: Creu/Adolygu Polisi Ymddygiad Ysgol

1. Mae llywodraethwyr yn derbyn copi o'r polisi presennol, unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ddogfennau neu weithdrefnau eraill sy'n cael eu defnyddio ar y pryd.

2. Mae'r corff llywodraethu'n cyfarfod ac wedi trafodaeth (gweithdy, astudiaeth achos) yn cytuno ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i bolisi ymddygiad i'r ysgol. Caiff y rhain eu cofnodi.

3. Mae'r corff llywodraethu'n cytuno ar broses o ymgynghoriad ar yr egwyddorion: diwrnod gweithdy staff, cofnodion o drafodaethau rhwng grwpiau o ddisgyblion/cynghorau ysgol; cyflwyniadau gan sefydliadau lleol, gweithwyr ieuenctid, heddlu, swyddogion ALl ac arbenigwyr eraill; ymgynghoriad gyda rhieni trwy gyfrwng cyflwyniadau/trafodaethau, mewn nosweithiau rhieni, digwyddiadau cymdeithas rhieni/athrawon ayb.

4. Dylai monitro a gwerthuso'r polisi ymddygiad presennol gyfrannu at yr adolygiad. Er enghraifft, asesu effaith gweithredu polisïau, faint o wobrau sydd wedi eu dos barthu a'u cadarnhau.

5. Mae'r corff llywodraethu'n penodi gweithgor gyda chynrychiolwyr o gyfranogion, gan gyfethol unrhyw un sydd ddim yn llywodraethwr, a chytuno ar ei gylch gorchwyl, amserlen, adnoddau, y camau i'w cymryd, a datganiad ysgrifenedig eglur o'r egwyddorion a gytunwyd.

6. Yn dilyn ymgynghoriadau mae'r gweithgor yn paratoi dogfen ddrafft a gaiff ei drafod gan y corff llywodraethu. Ydy'r ddogfen yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd gan y corff llywodraethu? Ydy e'n cyfrannu at gyflawni amcanion yr ysgol? Fydd disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned yn cytuno ag ef?

7. Pan gytunir ar y polisi, bydd y corff llywodraethu'n ei gadarnhau'n swyddogol ac yn penderfynu pa bwyllgor neu weithgor fydd yn gyfrifol am ei fonitro, pa mor aml y bydd yn adrodd i'r corff llywodraethu, a phryd bydd yn amser i'w adolygu.

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol sy'n berthnasol i'r adran hon yn Adran 30 gylchlythyr Rhif 47/2006 **Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.**

# 10. CYNGHORAU YSGOL – CYFRANOGIAD DISGYBLION

Yn ôl Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005, a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2005, mae'n ofynnol i bob ysgol gynradd (ar wahân i fabanod a meithrin), uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru gael Cyngor Ysgol yn weithredol erbyn 1af Tachwedd 2006. Mae'r Rheoliadau'n nodi nifer o ofynion angenrheidiol ar gyfer sefydlu a gweithredu cynghorau ysgolion – e.e. bod yn rhaid i'r aelodau gael eu hethol trwy gyfrwng pleidlais gudd, bod yn rhaid i ysgolion gyda lleoliad ag adnoddau addysg penodol gael o leiaf un aelod o'r lleoliad hwnnw ar y cyngor, a bod yn rhaid i'r cyngor gyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn

Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi bod cynghorion ysgolion mewn ysgolion uwchradd yn gallu enwebu hyd at ddau aelod o'r Cyngor o flynyddoedd 11 – 13 i fod yn ddisgybl lywodraethwr cyswllt ar y corff llywodraethu a bod yn rhaid i'r corff llywodraethu dderbyn y fath enwebiadau. Ceir rhai darpariadau yn y rheoliadau sydd ddim yn berthnasol i ysgolion cymunedol arbennig a gynhelir na ysgolion sefydledig arbennig.

Mae gan bob ysgol gyfarwyddyd ar gynghorion ysgol yn Cylchlythyr **42/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Canllaw ar Sefydliad a Gweithrediad Cynghorau Ysgol i Gyrff Llywodraethu'** sy'n cynnwys gwybodaeth, cyngor ac enghreifftiau o arfer da. Mae Prosiect Cynghorion Ysgol/Cyfranogiad Disgyblion hefyd wedi ei sefydlu gan Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion Llywodraeth Cymru i helpu ysgolion yng Nghymru i weithredu'r gofynion statudol a datblygu cyfranogiad effeithiol gan ddisgyblion. Mae'r prosiect wedi gweithio gyda phartneriaid i sefydlu gwefan (www.schoolcouncilswales.org.uk) ble y gall plant, pobl ifanc ac oedolion gael gwybodaeth a dysgu mwy am gyfranogiad disgyblion a chynghorau ysgol.

## RÔL LLYWODRAETHWYR

Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn helpu ysgolion i ddatblygu cyfranogiad disgyblion ac, mewn ysgolion sydd yn cymryd cyfranogiad o ddifrif, gall hyn gael effaith hynod o gadarnhaol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgybl ac ar holl amgylchedd yr ysgol. I helpu llywodraethwyr gyda'r broses hon, mae'n bwysig eu bod yn deall y meysydd canlynol:

### a. Beth yw ystyr cyfranogiad disgyblion:

Mae cyfranogiad disgyblion yn golygu bod plant a phobl ifanc yn lleisio barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw yn yr ysgol a bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifrif gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu bod disgyblion yn dysgu am brosesau democrataidd, dinasyddiaeth a chael y cyfle i gydweithio gydag oedolion i wella amgylchedd yr ysgol a sicrhau eu bod yn derbyn y cyfleoedd addysgol gorau posib. Gall cyfranogiad ddigwydd mewn sawl ffurf ac ar sawl lefel wahanol: trwy arddull addysgu a dysgu cyfranogol; trwy gynghorau dosbarth, blwyddyn ac ysgol; trwy ymgynghoriad rheolaidd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig a mentrau cenedlaethol fel Ysgolion Iach ac Eco-Ysgolion.

b. Y rhesymau wrth wraidd mwy o gyfranogiad disgyblion:

Mae ysgolion sydd wedi datblygu ffyrdd cyfranogol o weithio yn sôn am fuddiannau mawr yn ei sgil. Trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gwneud penderfyniadau, mae disgyblion yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol gwerthfawr fel gwrando, cyfathrebu, trafod, blaenoriaethu a gweithio gydag eraill i gyrraedd nod y grŵp. Pan gânt gyfle i gyfranogi, mae disgyblion yn fwy ymrwymedig a chyfrannog, ac mae perthynas rhwng disgyblion ac athrawon yn gwella. Pan fo polisïau'n adlewyrchu anghenion disgyblion ac yn ymgorffori eu syniadau, maen nhw'n dueddol o fod yn well ac yn fwy cadarn. Caiff egni creadigol disgyblion ei sianelu at weithio law yn llaw gydag oedolion er mwyn cyrraedd nod cyffredin.

c. Sut all ysgolion ddatblygu cyfranogiad disgyblion, yn ôl eu hanghenion ac amgylchiadau:

Ni ellir creu diwylliant cyfranogol dros nos, ac mae'n bwysig bod disgyblion yn cydweithio i benderfynu'r ffordd ymlaen. Mae angen i ddisgyblion a staff ddeall sut i ddatblygu dulliau a strwythurau cyfranogol. I helpu disgyblion, staff ysgol a llywodraethwyr i gael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gwefan Cyngor Ysgol (www.schoolcouncilswales.org.uk), sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor am gynghorau ysgol a chyfranogiad ehangach gan ddisgyblion. Mae modiwl gan lywodraethwyr ar gyfranogiad disgyblion hefyd yn cael ei dreialu ac fe fydd ar gael yn ehangach cyn bo hir. Mae'r Prosiect Cyfranogiad Disgyblion hefyd yn hyfforddi pobl allweddol mewn ALl ar hyd a lled Cymru, fydd yn gallu cysylltu gyda'u hysgolion i geisio datblygu arfer effeithiol o gyfranogiad disgyblion a datblygu rhwydweithiau gwybodaeth a chefnogaeth. Am wybodaeth ar unrhyw un o'r mentrau hyn, neu am gyngor a chefnogaeth pellach, cysylltwch â: YALO.Mailbox@Wales.gsi.gov.uk.

Mae cyfranogiad mewn ysgolion yn rhan o ddarlun ehangach yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i sicrhau bod plant a phobl ifanc 0-25 oed yn cael y cyfleoedd gorau posib i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dywediad i egluro hyn:

**"Mae cyfranogiad yn golygu bod gen i hawl i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau neu gynllunio ac adolygu a gweithredu all effeithio arnaf i. Bod â llais, bod â dewis"** ac mae'n cefnogi datblygu gweithdrefnau a sefydliadau sy'n helpu i hwyluso cyfranogiad effeithiol, er enghraifft fforymau ieuenctid lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r Ddraig Ffynci (Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n galed i greu model o sut y gall cyfranogiad effeithiol gan blant a phobl ifanc yng ngwaith sefydliadau wella'r ffordd y maen nhw'n gweithredu a gwneud penderfyniadau.

Fodd bynnag, mae cyd-destun yr ysgol yn hollbwysig. Mae'n un o'r lleoliadau cyntaf y tu allan i'r cartref ble mae plant a phobl ifanc yn dysgu sut i ryngweithio gydag oedolion y tu allan i'r teulu, a ble maen nhw'n cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau ac agweddau angenrheidiol er mwyn dod yn ddinasyddion cyfrifol a gweithgar. Gall llywodraethwyr chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru'n rhywle ble gall pobl ifanc gaffael sgiliau ac arferion democrataidd.

## RÔL DISGYBL-LYWODRAETHWYR CYSWLLT

Her arbennig i lywodraethwyr ysgol yw rôl y disgybl lywodraethwr cyswllt. Bydd angen i'r corff llywodraethu benderfynu sut i weithio gyda'r cynrychiolwyr hyn er mwyn cael y canlyniadau gorau i'r bobl ifanc sydd wedi eu henwebu'n ddisgybl lywodraethwyr cyswllt, i'r corff llywodraethu cyfan, a'r ysgol. Efallai y bydd angen ystyried y ffactorau canlynol, ymysg eraill:

- Fformat, cynnwys ac amseriad cyfarfodydd llywodraethwyr;
- Ffurf ac amseriad cyfathrebu;
- Rôl y disgybl-lywodraethwr cyswllt mewn cyfarfodydd;
- Dulliau o weithio sy'n gynhwysol a chreadigol;
- Cysylltiadau parhaus rhwng y corff llywodraethu a'r cyngor ysgol.

Mae mwy o gyfranogiad disgyblion yn ddatblygiad cyffrous sydd, os yn cael ei feithrin a'I ddatblygu'n iawn, yn gallu golygu canlyniadau cadarnhaol i'ch ysgol.